Amgueddfa Cymru

Polisi Benthyciadau Allan

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Amgueddfa Cymru yn cadw casgliadau mewn ymddiriedolaeth ar gyfer pobl Cymru. Mae'n dogfen weledigaeth yn 2015, *Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau,* wedi ailddatgan ein hymrwymiad i sicrhau bod y casgliadau hyd yn oed yn fwy perthnasol a hygyrch. Mae benthyca eitemau i eraill yn rhoi cyfle i bobl na chafodd gyfle o reidrwydd i ymweld â'n Hamgueddfeydd, i weld ein casgliadau. Mae benthyca yn rhoi cyfle i eitemau gael eu rhoi mewn cyd-destun newydd gydag eitemau gan sefydliadau neu unigolion eraill, mewn ffyrdd newydd ac ysgogol.

1.2 Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â'n *Polisi Mynediad at y Casgliadau a'r Defnydd a Wneir Ohonynt* ac yn un rhan o'n Fframwaith Rheoli Casgliadau, yn unol â'r strategaethau a pholisïau cysylltiedig eraill yr amgueddfa a restrir yn ein *Polisi Rheoli Casgliadau.*

2. Amcan

2.1 Mae'r polisi hwn yn nodi sut y byddwn yn benthyca eitemau o'n casgliadau i amrywiaeth eang o sefydliadau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio gymaint â phosibl ac er budd pawb.

3. Diffiniadau

3.1 Trefniadau ffurfiol ar gyfer trosglwyddo gofal dros dro o eitemau sy'n eiddo i'r Amgueddfa i sefydliad arall yw benthyciadau allan, a hynny ar gyfer diben penodol a chyfnod o amser a gytunwyd ymlaen llaw. Arddangosfeydd, arddangosiadau ac ymchwil yw benthyciadau allanol fel arfer, er nad ydynt yn gyfyngedig i hynny. Bydd perchnogaeth yr eitemau yn aros yn nwylo'r Amgueddfa.

4. Egwyddorion

4.1 Byddwn yn gwneud yn fawr o'n gweithgareddau benthyciadau fel y gall hyd yn oed mwy o bobl fwynhau a dysgu o'r casgliadau yn ein gofal.

4.2 Byddwn yn benthyca i sefydliadau eraill er mwyn eu helpu i baratoi arddangosiadau mwy cynhwysfawr, er mwyn ehangu'r ddarpariaeth addysg.

4.3 Byddwn yn benthyca er mwyn cynyddu mynediad i'r casgliadau.

4.4 Byddwn yn benthyca eitemau ar gyfer ymchwil er mwyn datblygu ac ehangu ein gwybodaeth am y casgliadau.

4.5 Dim ond os byddwn yn sicr na fydd y benthyciwr yn defnyddio'r eitemau i gefnogi neu hyrwyddo safbwynt moesegol sy'n groes i'n safbwynt ni y byddwn yn benthyca eitemau.

5. Ystyriaethau Moesegol a Chyfreithiol Penodol

5.1 Byddwn yn dilyn *Cod Moeseg (2015)* Cymdeithas yr Amgueddfeydd. Byddwn yn cael ein llywio hefyd gan *Museums Association's Smarter Loans; Principles of Lending (2011).*

6. Cais am Fenthyciad a Chymeradwyaeth

6.1 Diwydrwydd dyladwy: Bydd benthycwyr yn dangos, hyd eithaf eu gallu, nad oes ganddynt unrhyw achos rhesymol i gredu bod unrhyw eitem sy'n rhan o arddangosfa, wedi'i dwyn, wedi'i hallforio'n anghyfreithlon neu ei mewnforio'n anghyfreithlon o'r wlad wreiddiol, fel y diffiniwyd yng Nghonfensiwn UNESCO ar Ddulliau Gwahardd ac Atal Mewnforio, Allforio a Throsglwyddo Perchnogaeth Eiddo Diwylliannol yn Anghyfreithlon 1970, a Chonfensiwn UNIDROIT ar Wrthrychau Diwylliannol wedi'u Dwyn neu eu Hallforio'n Anghyfreithlon 1995 a Deddf Prynu a Gwerthu Gwrthrychau Diwylliannol (Troseddau) 2002. Byddwn ond yn caniatáu benthyciadau at ddibenion samplau DNA os oes dogfennau i ategu'r defnydd o samplau yn unol â Rheoliadau Protocol (Cydymffurfio) Nagoya 2015.

6.2 O ran benthyciadau tramor, cyfrifoldeb y benthyciwr yw trefniadau tollau a darparu trwyddedau allforio ac ati. Rhaid i fenthycwyr gydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol (e.e. CITES) a gwneud trefniadau tollau priodol.

6.3 Byddwn yn ystyried pob cais am fenthyciad yn rhesymol ac yn dryloyw. Ar ôl derbyn cais newydd am fenthyciad, byddwn yn cynghori ar unrhyw ffioedd yn gynnar yn y broses ymgeisio. Wrth asesu ceisiadau benthyciadau, byddwn yn ystyried effaith a dibenion amgueddfaol y benthyciad arfaethedig, ein gallu i reoli'r benthyciad, a lles yr eitemau gofynnol. Bwriadwn roi ateb rhesymol i holl geisiadau am fenthyciadau, yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael ar y pryd.

6.4 Byddwn yn sicrhau bod cytundebau ysgrifenedig wedi'u llofnodi yn eu lle cyn unrhyw fenthyciad. Byddwn yn cofnodi gwybodaeth am y benthyciwr a diben y benthyciad ar naill ai'r ffurflen Cytundeb Benthyciad neu'r ffurflen Amodau a Thelerau'r Benthyciadau Ymchwil ynghyd â'r amodau penodol sy'n gysylltiedig â'r benthyciad, er enghraifft cyfyngiadau ar drin yr eitemau neu dynnu ffotograff ohonynt. Bydd unrhyw wybodaeth a gesglir yn ystod y broses ymgeisio am fenthyciad ond yn cael ei defnyddio a'i chadw mewn cysylltiad â'r cais hwnnw ac yn unol â'n polisïau diogelu data a rhyddid gwybodaeth cyfredol.

6.5 Fel arfer, byddwn yn anfon cludwr dan yr amgylchiadau canlynol:

- os nad ydym wedi benthyca i'r ganolfan o'r blaen;
- os yw'r eitem ar fenthyg yn un fregus neu'n hynod gymhleth i'w gosod at ei gilydd;

- os yw'r eitem yn brin neu'n ddrudfawr; os yw'r siwrnai'n hir neu beryglus.

6.6 Pe byddem yn gorfod gwrthod cais am fenthyciad, byddwn yn darparu rhesymau ysgrifenedig i chi. Mae'r rhesymau dros wrthod yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i'r canlynol:

- mae'r eitemau'n rhy fregus, mewn cyflwr gwael neu ansefydlog neu mewn perygl gormodol o gael eu difrodi wrth eu trin a'u trafod neu eu cludo.
- mae'r Amgueddfa angen yr eitemau dan sylw ar gyfer ei arddangos, astudiaeth gan staff neu fyfyrwyr, neu at ddibenion addysgol eraill yn ystod cyfnod y benthyciad arfaethedig
- nid oedd modd datrys problemau yn y lleoliad sy'n benthyca, e.e. bydd yr eitemau'n agored i lefel annerbyniol o risg
- bydd yr eitemau mewn perygl oherwydd trafferthion gwleidyddol neu economaidd posibl
- bydd y gwrthrychau neu'r sbesimenau'n cael eu defnyddio i gefnogi neu hyrwyddo safbwynt moesegol sy'n groes i'n safbwynt ni
- gofynion cyfreithiol – bydd angen i unrhyw eitem sy'n cynnwys deunyddiau peryglus gael ei rheoli o fewn y fframwaith deddfwriaethol cyfredol.

7. Yswiriant ac Indemniad

7.1 Gan ddibynnu ar bwrpas y benthyciad a natur a gwerth yr eitemau ar fenthyg, fel arfer byddwn yn gofyn i fenthycwyr gael yswiriant ar sail 'hoelen i hoelen' drwy gydol cyfnod y benthyciad. Bydd lefel yr yswiriant sydd ei angen yn cael ei phenderfynu fel rhan o'r broses ymgeisio. Rhaid i'r benthyciwr ddangos prawf o yswiriant fel rhan o'r broses hon.

7.2 Gall y rhan fwyaf o indemniadau llywodraeth/ffederal/talaith y tu allan i'r DU fod yn dderbyniol yn lle yswiriant masnachol, ar gyfer benthyciadau tramor. Fodd bynnag, mae'r Amgueddfa'n cadw'r hawl i ofyn i'r benthyciwr brynu yswiriant masnachol naill ai'n ychwanegol at yr indemniad neu yn lle hynny.

8. Defnydd a Diogelu

8.1 Ni chaiff neb wneud unrhyw ymyriad ffisegol (samplu, cadwraeth ac ati) ar unrhyw un o'n heitemau heb gytundeb ysgrifenedig gan Geidwad yr adran fenthyca yn gyntaf. Rhaid i unrhyw gais i gyflawni gwaith o'r fath nodi union fanylion y gwaith a sut y caiff ei gofnodi.

9. Difrod neu Golled

9.1 Os bydd eitem ar fenthyciad allanol yn mynd ar goll, yn cael ei difrodi neu ei rhoi mewn perygl, neu os yw amgylchiadau'r benthyciad yn newid mewn unrhyw ffordd, rhaid rhoi gwybod i ni ar unwaith.

10. Costau a Threuliau

10.1 Mae manylion ein ffioedd paratoi ar gyfer benthyciad ar gael yn Atodiad B.

10.2 Fel arfer nid ydym yn codi tâl am baratoi benthyciadau ar gyfer ymchwil neu er mwyn benthyca i amgueddfeydd yng Nghymru.

10.3 Efallai y byddwn yn codi tâl ychwanegol ar sail disgresiwn wrth fenthyca eitemau drutach i ganolfannau arddangos y tu allan i'r DU. Byddwn yn cynghori ar hyn yn ystod y cais.

10.4 Byddwn yn codi tâl am dreuliau eraill, fel costau cludwr, ar gyfer pob benthyciad ar gyfer arddangosfeydd.

11. Cyfnod a Therfynu

11.1 Mae pob benthyciad am gyfnod penodol. Nid ydym yn cytuno i fenthyca eitemau am gyfnod amhenodol.

11.2 Rydym yn cadw'r hawl i adalw unrhyw eitem sydd ar fenthyg unrhyw bryd, ond ni fyddwn yn gwneud hyn fel arfer heblaw mewn argyfwng neu os yw'r benthyciwr yn methu â chydymffurfio â'r polisi hwn a'r manylion a gofnodwyd yng Nghytundeb y Benthyciad neu Delerau ac Amodau Benthyciadau Ymchwil.

Atodiad A: Amserlen ar gyfer Ceisiadau

A1. Benthyciadau ar gyfer arddangosfeydd ac arddangosiadau

A1.1 Dylid cyflwyno ceisiadau ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, chwe mis ymlaen llaw.

A1.2 Dylai ceisiadau am fenthyciadau sylweddol neu hynod o bwysig, neu geisiadau am fenthyciadau tramor, gael eu gwneud ddeuddeg mis ymlaen llaw.

A1.3 Byddwn yn eich hysbysu am y ffioedd yr ydym yn debygol o'u codi cyn gynted â phosibl ar ôl derbyn eich cais am fenthyciad (o fewn deufis i dderbyn eich llythyr fel arfer).

A1.4 Bydd manylion gofynion penodol o ran diogelwch, trin a thrafod, rheolaeth amgylcheddol a monitro ac ati, wedi'u cynnwys yng Nghytundeb y Benthyciad (benthyciadau ar gyfer arddangosfeydd, arddangosiadau a defnydd addysgol).

A1.5 Rhaid i unrhyw sefydliadau benthyca (gan gynnwys pob lleoliad ar gyfer arddangosfa deithiol) lenwi Ffurflenni Adrodd Cyfleusterau, Diogelwch a Chasys Arddangos. Bydd cynnwys yr adroddiadau hyn yn cael eu hanfon at y Cynghorydd Diogelwch Cenedlaethol, Cyngor Celfyddydau Lloegr, am gyngor fel bo'r angen.

A1.6 Byddwn yn gweithio gyda darpar fenthycwyr er mwyn canfod atebion derbyniol i unrhyw broblemau a nodir ar y ffurflenni hyn.

A2. Benthyciadau ymchwil

A2.1 Rhaid i geisiadau i fod yn Fenthyciwr Cymeradwy gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig i'r Ceidwad perthnasol cyn cychwyn unrhyw brojectau mawr sy'n dibynnu ar ddefnyddio'n casgliadau ni.

A2.2 Rhaid i sefydliadau sy'n derbyn benthyciadau fod ag aelod proffesiynol cydnabyddedig o staff yn y maes priodol, neu allu cael gafael ar gyngor o safon gymharol. Bydd yr amodau perthnasol ar gyfer pob benthyciad ymchwil wedi'u nodi yn ein Telerau ac Amodau ar gyfer Benthyciadau Ymchwil a, lle bo'n berthnasol, ein Telerau ac Amodau ar gyfer Paratoi, Samplu a Dadansoddi.

A2.3 Bydd cymeradwyaeth ar gyfer samplu neu ddadansoddiad dinistriol yn dibynnu ar bwysigrwydd gwyddonol, hanesyddol a diwylliannol y deunydd dan sylw; anghenion defnyddwyr y presennol a'r dyfodol a'r materion cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol i'r deunydd. Bydd ceisiadau am samplau yn destun proses ymgeisio (gweler ein *Polisi ar Fynediad i'r Casgliadau a'r Defnydd a Wneir Ohonynt*).

A3. Benthyciadau i sefydliadau addysgol (ac eithrio ar gyfer ymchwil)

A3.1 Ar gyfer dibenion addysgol, rhaid gwneud cais ysgrifenedig i'r Ceidwad perthnasol.

A3.2 Bydd manylion gofynion penodol o ran diogelwch, trin a thrafod, rheolaeth amgylcheddol a monitro ac ati, wedi'u cynnwys yng Nghytundeb y Benthyciad yn achos benthyciadau ar gyfer arddangosfeydd, arddangosiadau a defnydd addysgol.

A4. Benthyciadau eraill

A4.1 Dan amgylchiadau eithriadol, gellir gwneud benthyciadau i gwmnïau teledu neu gyhoeddwyr. Rydym yn cadw'r hawl i un neu fwy o aelodau'r staff fod yn bresennol pan fydd deunydd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion ffotograffiaeth neu ffilmio ar safle y tu allan i'r Amgueddfa. Hefyd, byddwn yn disgwyl i fenthycwyr fodloni unrhyw amodau diogelwch neu amgylcheddol y gallem eu gosod. Byddwn yn codi ffioedd – yn seiliedig ar ein fframwaith costau ar y pryd – am fenthyca'r eitemau a phresenoldeb y staff hefyd.

A4.2 Rhaid i geisiadau i fenthyca eitemau er mwyn eu hadfer neu greu replicas, gan gynnwys sganio 3D, gael eu cyflwyno i'r Ceidwad perthnasol.

Atodiad B: Taliadau a Godir am Fenthyciadau

B1.1 Mae gennym dri chategori daearyddol: (i) Cymru; (ii) Gweddill y DU; (iii) Rhyngwladol.

B1.2 Fel arfer nid ydym yn codi tâl am fenthyciadau o fewn Cymru gan fod rhannu'r casgliadau cenedlaethol â phobl Cymru yn rhan o ddiben yr amgeddfa.

B1.3 Rhaid i'r gost blynyddol i ni o weithredu benthyciadau i sefydliadau y tu allan i Gymru, a chost unigol pob benthyciad, gynnwys yr holl gostau o leiaf, gan gynnwys amser staff, ym mhob agwedd ar y broses.

B1.4 Rydyn ni'n codi tâl uwch am fenthyciadau i arddangosfeydd lle mae tâl mynediad ar gyfer yr holl sefydliad a/neu'r arddangosfa benodol, nag ar sefydliadau lle mae'r naill a'r llall am ddim.

B1.5 Bydd yr Amgueddfa'n ychwanegu atodiad y farchnad am bob benthyciad sydd o werth uchel (celf yn bennaf, er nad yn ddieithriad) yn seiliedig ar ein hamcangyfrif o werth pob darn o waith yn fras.

B1.6 Byddwn yn darparu datganiad llawn o gostau'r benthyciad wrth lunio cytundeb ffurfiol ar gyfer y benthyciad: petai'r Benthyciwr yn tynnu'r cais yn ôl wedi hynny, bydd rhaid iddo dalu am unrhyw gostau a gafwyd adeg y canslo.

Taliadau fesul eitem

1. Cymru

Nid yw Amgueddfa Cymru yn codi ffioedd ar gyfer rhannu'r casgliadau cenedlaethol yng Nghymru, heblaw am gostau uniongyrchol (pacio, cludo). Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau sydd am fenthyca ein casgliadau i gadw'r ffioedd hyn mor isel â phosibl.

2. Y DU ac Iwerddon

Maes gweithgarwch	Nodiadau	Arddangosfa am ddim mewn lleoliad â mynediad am ddim	Arddangosfa sy'n codi tâl mewn lleoliad â mynediad am ddim/arddangosfa am ddim mewn lleoliad sy'n codi tâl am fynediad/arddangosfa sy'n codi tâl am fynediad mewn lleoliad sy'n codi tâl am fynediad
Ffi (gwaith gweinyddol, gwaith curadurol, ffotograffiaeth, adroddiad cyflwr)	Prosesu adroddiadau cyfleusterau, logisteg, paratoi labeli, cofnodion catalog ffeithiol byr	£356 gyda gostyngiad o 50% (£178)	£712
Gwaith cadwraeth a thechnegol ar gyfer yr eitem sy'n cael ei benthyca	Glanhau, sefydlogi, fframio, paratoi mowntiau, pacio	£50 yr awr	
Gwaith cadwraeth a thechnegol ar gyfer eitem amgen, os yw'r eitem sy'n cael ei benthyca fel arfer yn cael ei harddangos	Glanhau, sefydlogi, fframio, paratoi mowntiau, pacio	£500 fesul eitem	
Prisio	Bydd rhaid prisio'r eitem os yw ein cofnodion yn dangos nad yw'r gwaith wedi'i brisio o fewn y 5 mlynedd diwethaf; isafswm o £250		
Gwaith cadwraeth trydydd parti a gwaith technegol	Cost wirioneddol + 20%		
Deunyddiau arbennig	Sgleinio, fframiau, cawellau pacio	Cost wirioneddol + 20%	

3. Rhyngwladol

Maes gweithgarwch	Nodiadau	Arddangosfa am ddim mewn lleoliad â mynediad am ddim	Arddangosfa sy'n codi tâl mewn lleoliad â mynediad am ddim/arddangosfa am ddim mewn lleoliad sy'n codi tâl am fynediad/arddangosfa sy'n codi tâl am fynediad mewn lleoliad sy'n codi tâl am fynediad
Ffi (gwaith gweinyddol, gwaith curadurol, ffotograffiaeth, adroddiad cyflwr)	Prosesu adroddiadau cyfleusterau, logisteg, paratoi labeli, cofnodion catalog ffeithiol byr	£856	£1462
Ffi premiwm	Codir y ffi hon ar bob eitem gwerth £100,000 neu fwy; ffi isaf £1,000; codir tâl fesul lleoliad ar gyfer benthyca eitem unigol i nifer o leoliadau, a fesul eitem ar gyfer benthyca nifer o eitemau i un neu fwy o leoliadau		
Gwaith cadwraeth a thechnegol ar gyfer yr eitem sy'n cael ei benthyca	Glanhau, sefydlogi, fframio, paratoi mowntiau, pacio	£60 yr awr	
Gwaith cadwraeth a thechnegol ar gyfer eitem amgen, os yw'r eitem sy'n cael ei benthyca fel arfer yn cael ei harddangos	Glanhau, sefydlogi, fframio, paratoi mowntiau, pacio	£500 fesul eitem	
Prisio	Bydd rhaid prisio'r eitem os nad yw'r gwaith wedi'i brisio o fewn y 5 mlynedd diwethaf; isafswm o £250		
Gwaith cadwraeth trydydd parti a gwaith technegol		Cost wirioneddol + 20%	
Deunyddiau arbennig	Sgleinio, fframiau, cawellau pacio	Cost wirioneddol + 20%	

Atodiad i Bolisi Benthyciadau Allanol, Cymeradwywyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr mewn cyfarfod ar 14 Rhagfyr 2017

Criteria Asesiad ar gyfer Ceisiadau am Fenthyciadau

1. Caiff ceisiadau am fenthyciadau eu hasesu yn y drefn y cânt eu derbyn felly mae'n bosibl na fydd gweithiau ar gael am eu bod wedi cael eu haddo i fenthyciwr arall yn barod.

Os yw gwaith wedi cael ei addo i fenthyciwr arall yn barod erbyn i'r cais gael ei dderbyn, ni chaiff gwaith pellach ei wneud a byddwn yn gadael i'r sefydliad sydd wedi gwneud cais wybod fod eu cais am fenthyciad wedi'i wrthod.

2. Pan fyddwn wedi cadarnhau fod gwaith ar gael, byddwn yn ystyried y ffactorau canlynol:

i. Hygrededd academaidd a churadurol y sefydliad sy'n benthyg a chysyniad eu harddangosfa.
ii. Yw'r gwaith mewn cyflwr addas neu a ellir sefydlogi ei gyflwr yn ddigonol i alluogi ei fenthyg gyda lefel risg isel
iii. A yw hi'n bosibl cyflawni cadwraeth, pacio a gwaith paratoadol arall yn ogystal ag ymrwymiadau presennol i fenthyciadau, arddangosfeydd neu raglenni eraill
iv. A all y sefydliad sy'n benthyg ein sicrhau y bydd modd iddynt ddarparu'r lefel diogelwch a'r amodau amgylcheddol yn unol â'u Ffurflen Adrodd am Adnoddau
v. A yw'r sefydliad sy'n benthyg wedi cadarnhau y byddant yn darparu indemniad neu yswiriant priodol

Os na ellir bodloni'r cwbl neu unrhyw rai o'r meini prawf uchod, byddwn yn gwrthod cais am fenthyciad.

Ni chaiff gwaith pellach ei wneud a byddwn yn gadael i'r sefydliad sydd wedi gwneud cais wybod fod eu cais am fenthyciad wedi'i wrthod.

3. Pan fyddwn wedi cadarnhau y gellir bodloni ffactorau i–v, byddwn yn dadansoddi'r ffactorau canlynol er mwyn penderfynu os dylai'r benthyciad fynd rhagddo:

vi. Sut gellir lleihau effaith y benthyciad os yw'r gwaith yn cael ei arddangos fel arfer, yn enwedig os caiff ei ystyried yn waith allweddol bwysig i'n casgliadau, e.e. arddangos gwaith arall gaiff ei ddangos yn llai aml; benthyg gwaith gan sefydliad arall fyddai ddim yn cael ei arddangos yng Nghymru fel arall.
vii. Hanes benthyg y gwaith, yn enwedig os yw wedi cael ei fenthyg yn y deunaw mis cyn y cais sydd dan ystyriaeth
viii. Natur ein perthynas bresennol gyda'r sefydliad sy'n benthyg, a'r berthynas yn y dyfodol

4. Pan fyddwn wedi penderfynu, yn unol â ffactorau i–viii, y dylai benthyciad fynd yn ei flaen, bydd y polisi prisio presennol cael ei weithredu.